

**MAE'R DAFLEN HON I DDARPARU CANLLAWIAU YN UNIG**



**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH**

**CYSYLLTWCH Â:**

**Tîm Grantiau Adfywio**

**Ffôn:- 01352 703460**

**GWASANAETH ADFYWIO TAI**

**Cyngor Sir y Fflint**

**Tŷ Dewi Sant**

**Parc Dewi Sant**

**Ewlo**

**CH5 3FF**

**ADFYWIO TAI**

**Benthyciad i Berchen-feddiannydd**

**Cadw eiddo'n gynnes, saff a diogel.**



**MAE'R DAFLEN HON AR GAEL YN SAESNEG HEFYD**

**Cyhoeddwyd Mehefin 2022  
TAFLEN**

## **CYNGOR SIR Y FFLINT**

### **ADFYWIO TAI**

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun Benthyciad sydd yn cynnig cymorth ariannol i berchnogion eiddo preifat. Bwriad y benthyciad yw gwneud yn siŵr bod gan bobl gartrefi cynnes, diogel ac effeithlon o ran ynni i fyw ynddynt. Mae'r Benthyciad wedi'i anelu'n bennaf at bobl sydd wedi'u cyfyngu gan ffynonellau cyllid eraill.

### **Pwy all wneud cais?**

Mae benthyciadau di-log o hyd at £25,000 ar gael i helpu i dalu am welliannau i eiddo i berchen-feddiannwyr.

Mae'n rhaid i chi fod yn bwriadu meddiannu'r eiddo. Os ydych chi'n berchen ar eiddo gwag, mae'n bosibl eich bod yn gymwys i wneud cais i "Gynllun Cartrefi Gwag" CSFf  
**Ffoniwch:-** 01352 703822 i gael rhagor o fanylion.

### **Sut mae'r benthyciad Perchen-Feddiannydd yn gweithio?**

Mae'r benthyciad yn fenthyciad diogel gyda phridiant ar yr eiddo am hyd oes y benthyciad. Yn amodol ar asesiad Benthyciad yn erbyn gwerth, bydd y benthyciad yn cael ei sicrhau gan bridiant yn cael ei osod ar yr eiddo sy'n cael ei wella; fodd bynnag, efallai y bydd y pridiant yn cael ei warantu yn erbyn eiddo arall os oes angen.

Caiff yr holl arian ei dalu i chi, yn amodol ar gael anfoneb/au contractwr/contractwyr a chânt eu talu ar gyfnodau a gytunwyd o flaen llaw neu pan gaiff y gwaith ei gwblhau. Sylwch, bydd gofyn i chi reoli'r prosiect eich hun, gan gynnwys ceisio dyfynbrisiau cystadleuol, oherwydd mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu cyllid yn unig, ac ni fyddant yn gyfrifol am wirio ansawdd unrhyw waith.

### **Beth allwn i fod â hawl iddo?**

Gallech gael benthyciad di-log o rhwng £1,000 a £25,000 fesul eiddo.

### **Ffioedd**

Ar hyn o bryd, mae benthyciadau'n destun ffi weinyddu £500, i gwmpasu ein costau wrth weinyddu'r benthyciad - cynhelir asesiad fforddiadwyedd er mwyn sicrhau eich bod yn gallu talu ad-daliadau'r benthyciad.

Sylwch fod y benthyciadau hyn yn ôl disgrisiwn. Ni all CSFf warantu cynnig benthyciad i chi nes i chi gael hysbysiad ffurfiol bod eich cais wedi'i gymeradwyo.

Nid oes unrhyw ffi am ad-dalu'r ffioedd neu'r Benthyciad o flaen llaw neu yn gynnar.

### **Pa mor fuan y mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad?**

Mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad dros gyfnod o saith mlynedd (84 mis) os yw'r eiddo yn eiddo i berchen-feddiannwyr.

### **Sut ydw i'n gwneud cais?**

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am Fenthyciad Perchen-Feddiannydd, llenwch ffurflen "Mynegi Diddordeb Benthyciad Perchen-Feddiannydd" ar wefan CSFf. Gallwch hefyd anfon eich ffurflen mynegi diddordeb wedi'i llenwi atom neu gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau neu i gael rhagor o wybodaeth:-

**home.loans@flintshire.gov.uk**